Adroddiad i'r	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y cyfarfod	28 Hydref 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad	Lisa Jones, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro
Teitl	Presenoldeb mewn Cyfarfodydd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad i ystyried dull strwythuredig ar gyfer arsylwi a mynd i gyfarfodydd a darparu adborth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Un o ddulliau'r Pwyllgor i sicrhau cydymffurfedd â'r Cod Ymddygiad yw mynd i gyfarfodydd cynghorau sir, dinas, tref neu gymuned, naill ai o bell neu'n bersonol, ac mae dull strwythuredig yn cael ei ffafrio, a dyna pam bod yr adroddiad hwn wedi'i lunio.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn ystyried ac yn cytuno ar ddull cydlynol a strwythuredig.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cyfarfodydd y Cyngor Sir

Ar y cyfan, mae aelodau' Pwyllgorau Safonau blaenorol wedi mynd i brif gyfarfodydd llawn y Cyngor, yn hytrach na phwyllgorau fel y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu'r pwyllgorau craffu er enghraifft. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o gyfarfodydd cyhoeddus er gwybodaeth – mae manylion y cyfarfodydd diweddaraf

ar gael ar wefan y Cyngor. Yn draddodiadol, mae aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi canolbwyntio ar gynghorau tref, dinas a chymuned, ond mae'n bosibl y bydd yr aelodau eisiau arsylwi cyfarfodydd sirol o bryd i'w gilydd. Nid oes ymgynghorydd cyfreithiol na swyddog monitro yn bresennol ymhob cyfarfod pwyllgor, ac nid yw pob cyfarfod pwyllgor yn cael ei weddarlledu, ac felly efallai bod ar yr aelodau eisiau trafod a ydynt yn dymuno cynyddu eu gweithgarwch ar lefel sirol.

4. 2 Cyfarfodydd Tref, Dinas a Chymuned

Yn y gorffennol mae'r Pwyllgor wedi edrych ar y rhestr o gynghorau ac wedi cytuno ar ba aelod fydd yn mynd i ba gyngor. Mae'r aelodau wedi rhannu'r baich ac wedi adrodd yn ôl wrth iddynt fynd i gyfarfodydd yn ôl eu gallu. Yn y gorffennol mae'r Swyddog Monitro wedi bod yn cadw cofnod canolog o bresenoldeb ond, ers y pandemig, nid yw'r cofnod wedi'i ddiweddaru – gellir ailgychwyn cadw'r cofnod hwn os yw'r Pwyllgor yn gytûn. Efallai y bydd yr aelodau yn dymuno adolygu'r presenoldeb, yr ymdriniaeth a'r cynnydd mewn perthynas ag ymdrin â'r sir gyfan ymhob cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau, yn hytrach nag ar sail ad hoc; efallai yr hoffan nhw ganolbwyntio ar ardaloedd penodol neu, fel arall, arsylwi cyfarfodydd y tu allan i'w hardaloedd hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau yn dymuno alinio presenoldeb gyda'r wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â chwynion Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus; neu efallai yn dymuno awgrymu dull arall.

Mae Atodiad yn rhestr o gynghorau tref, dinas a chymuned i gynorthwyo, ynghyd â sgript awgrymedig.

Mae Atodiad 3 yn ffurflen adborth ddrafft ar gyfer trafodaeth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau yn helpu i ategu gwaith y Cyngor i weithredu ei swyddogaethau democrataidd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn ac nid oes unrhyw oblygiadau ar gyfer y gwasanaethau eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Nid oes angen ymgynghori pellach.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risg wedi'i nodi.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006